

**CRYNODEB O SAFBWYNTIAU YMATEBWYR I YMGYNGHORIAD CYMWYSTERAU
CYMRU AR 'ADEILADU'R DYFODOL' – CYNIGION SY'N DEILLIO O'R ADOLYGIAD O
GYMWYSTERAU A'R SYSTEM GYMWYSTERAU YN Y SECTOR ADEILADU A'R
AMGYLCHEDD ADEILEDIG**

Opsiynau a gyflwynwyd er mwyn ymgynghori arnynt

Maes dysgu A

Opsiwn A1 – Parhau i ddynodi cymwysterau presennol (a/neu gymwysterau newydd) fel rhai sy'n gymwys i'w defnyddio ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr dan 19 oed.

Opsiwn A2 – Datblygu meini prawf cymeradwyo er mwyn cymeradwyo un neu ragor o fersiynau o'r cymwysterau hyn i'w defnyddio yng Nghymru (a oedd yn cynnwys tri opsiwn gwahanol i'w gweithredu).

Maes dysgu B

Opsiwn B1 – Anelu at ddynodi'r cymwysterau newydd – a ddatblygwyd yn Lloegr i'w defnyddio ar raglenni lefel T – i'w defnyddio ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru.

Opsiwn B2 – Comisiynu cymwysterau Sylfaen a Dilyniant cyffredinol newydd, â llwybrau crefft-benodol, i'w defnyddio yng Nghymru.

Maes dysgu C

Opsiwn C1 – Dynodi, lle y bo'n bosibl, asesiadau terfynol a ddatblygir i'w defnyddio yn Lloegr ar raglenni 'Trailblazer' a pharhau i reoleiddio cymwysterau NVQ lle mae'r rhain yn dal i gael eu cynnig.

Opsiwn C2 – Comisiynu cymhwyster generig, â phrofion gwybodaeth am grefftau penodol, i'w defnyddio ar brentisiaethau yng Nghymru, ynghyd â phorth cyflogwr gwell. Byddai'r cymhwyster a'r porth cyflogwr gyda'i gilydd yn sicrhau bod y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol craidd wedi'u cwmpasu.

Ymatebwyr

- Roedd 33 o ymatebwyr. Cyflwynodd 31 ohonynt eu hymatebion gan ddefnyddio llwyfan SmartSurvey a gwnaeth dau anfon eu hymatebion drwy e-bost.
- Roedd 25 o ymatebwyr yn ymwybodol o adolygiad Cymwysterau Cymru o'r sector a gwnaeth 18 ohonynt gyfrannu at yr adolygiad.
- Nododd 26 o ymatebwyr eu bod yn ymateb ar ran sefydliad.
- Mathau o sefydliadau a gynrychiolwyd:
 - ✓ Corff proffesiynol neu gynrychiadol yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig – 12
 - ✓ Corff dyfarnu – 4
 - ✓ Coleg addysg bellach (er bod un o'r cyrff cynrychiadol, BACH, wedi ymateb ar ran ei aelodau o'r sector addysg bellach) – 4
 - ✓ Cyflogwr – 2

Nododd pob un o'r pedwar corff dyfarnu a ymatebodd eu bod yn dyfarnu cymwysterau yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig.

Yr opsiynau a ffefrir gan yr ymatebwyr

Dim ond yr opsiwn a ffefrir ganddynt y gwnaeth rhai ymatebwyr ei nodi, ond gwnaeth ymatebwyr eraill roi'r rheswm dros eu dewis hefyd. Cafodd y rhan fwyaf o'r rhesymau dros y dewis eu codi o'r manteision a'r anfanteision a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori ar gyfer pob opsiwn.

Tabl *Dosbarthu dewisiadau fesul opsiwn*

Opsiwn A1	Opsiwn A2	Opsiwn B1	Opsiwn B2	Opsiwn C1	Opsiwn C2
5	21	4	23	8	16

O dan opsiwn A2, awgrymwyd hefyd y dylai'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr rhwng 16 a 19 oed gael eu hystyried fel opsiynau ar wahân.

O dan faes dysgu B, dadleuodd un ymatebydd fod y ddau opsiwn yn cynnig cyfleoedd da i ddysgwyr gan fod un ohonynt yn sicrhau cludadwyedd a'r llall yn sicrhau bod cymwysterau'n paratoi dysgwyr yn llawn ar gyfer symud ymlaen i brentisiaeth ac yn datrys rhai o'r problemau presennol. Roedd ymatebydd arall o blaid parhau â'r dull dynodedig am resymau sy'n ymwneud â chysondeb a dilyniant ac am ei bod yn rhy gynnar i ddweud a fyddai mabwysiadu'r lefel T ei hun yn briodol.

Dywedodd rhai o'r ymatebwyr a oedd o blaid opsiwn B2 fod eu cefnogaeth yn amodol ar y canlynol:

- cynnal cysondeb â Lloegr cymaint â phosibl, gan gynnwys un awgrym y dylai Cymwysterau Cymru ymgysylltu â'r Sefydliad Prentisiaethau sy'n datblygu lefelau T;
- systemau cadarn ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â chyflogwyr.

Awgrymwyd bod angen i Cymwysterau Cymru weithredu mewn ffordd gyfannol ym mhob maes dysgu. Er enghraifft, gall parhau â'r sefyllfa bresennol ar gyfer maes dysgu A, ond ei newid ar gyfer meysydd dysgu B ac C, olygu nad yw llwybrau dilyniant yn glir.

Manteision ac anfanteision pob opsiwn

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddisgrifio manteision ac anfanteision pob opsiwn. Nododd rhai o'r ymatebwyr fod dogfen yr adolygiad o'r sector yn dadansoddi'r manteision/anfanteision yn dda, ond dewisodd llawer o'r ymatebwyr ailddatgan y gwaith dadansoddi a wnaed gan Cymwysterau Cymru, ymhelaethu arno neu ychwanegu ato.

Roedd yr ymatebwyr yn aml o'r farn mai manteision un oedd anfanteision opsiwn arall. Mae'r adroddiad cryno hwn yn dosbarthu safbwyntiau'r ymatebwyr yn ôl thema.

Themâu sy'n dod i'r amlwg ym mhob maes dysgu

Cludadwyedd/cydraddoldeb

Nododd ymatebwyr o bob math y byddai'n bwysig sicrhau cludadwyedd i Loegr. Ymhlith manteision cludadwyedd a nodwyd gan yr ymatebwyr roedd:

- hyblygrwydd i ddysgwyr ddewis a newid y darparwr dysgu;
- mwy o gyfleoedd i ddysgwyr yn y farchnad lafur;
- darpariaeth fwy amrywiol;
- ei bod yn fwy tebygol y byddai gan gyrff dyfarnu fwy o adnoddau i gefnogi dysgwyr a darparwyr dysgu;
- mae'n cefnogi cyflogwyr trawsffiniol;
- mae'r ffaith bod ganddynt yr un cymwysterau, neu gymwysterau tebyg o leiaf, yn hwyluso'r broses o weithredu cynlluniau cardiau diwydiant y DU gyfan ac yn gwneud synnwyr o ystyried bod safonau diwydiant Cymru a Lloegr yr un fath.

I'r gwrthwyneb, roedd ymatebwyr o bob grŵp yn pryderu na fyddai parhau i ddibynnu ar drefniadau cymwysterau yn Lloegr yn adlewyrchu anghenion Cymru, yn enwedig am na fyddai Cymwysterau Cymru na rhanddeiliaid perthnasol eraill yn debygol o gael unrhyw ddylanwad ar y penderfyniadau a wneir yno. Awgrymwyd y gallai hyn fod yn 'gyfansoddiadol anymarferol' hyd yn oed, a'i fod yn 'mynd yn groes i setliad datganoli Cymru', a bod y polisïau yng Nghymru eisoes yn wahanol ac y gall cynnal cludadwyedd fod yn heriol.

Y prif ddehongliad oedd bod sicrhau cludadwyedd yn golygu parhau i dderbyn yr un ddarpariaeth neu ddarpariaeth debyg o ran cymwysterau ag a fabwysiadwyd yn Lloegr, ond roedd ymatebwyr eraill yn cydnabod nad oedd angen i hynny ddigwydd o reidrwydd. Awgrymwyd y gall y ddwy wlad ddilyn llwybrau gwahanol wrth sicrhau y gellir cludo eu cymwysterau i'r naill wlad a'r llall. Cyfeiriwyd at opsiwn B2 fel enghraifft o'r ffordd y gall Cymru gael cymwysterau pwrpasol a sicrhau bod eu canlyniadau'n debyg i gymwysterau yn Lloegr.

Y Gymraeg

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at fater ddarpariaeth Gymraeg. Y farn gyffredin oedd na fyddai opsiynau A1-C1 yn diwallu anghenion darpariaeth ddwyieithog yn llawn ac y gallent arwain at broblemau megis cyfleoedd cyfyngedig i astudio neu gael eich asesu yn Gymraeg ac oedi am fod angen cyfieithu deunyddiau. Ar y llaw arall, roedd opsiynau A2-C2 fel petaent yn cynnig cyfle gwell i sicrhau y byddai pob cymhwyster cymeradwy ar gael yn y ddwy iaith.

Effaith costau

Awgrymodd ymatebwyr a oedd yn cynrychioli cyrff dyfarnu, darparwyr dysgu a chyrrff cynrychiadol fod datblygu cymwysterau pwrpasol yn Gymraeg yn golygu costau ychwanegol i gyrff dyfarnu am fod llai o ddysgwyr yng Nghymru nag yn y DU. Awgrymodd rhai na fyddai datblygu cymwysterau newydd o bosibl yn apelio at gyrff dyfarnu oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â hynny ac y gallant adael y farchnad. Pe byddai cyfyngiad ar y cymwysterau hynny, gallai hyn olygu costau datblygu ychwanegol i gyrff dyfarnu na fyddent yn gallu adennill y buddsoddiad yn ystod y broses ymgeisio pe bai eu cais yn aflwyddiannus.

Awgrymwyd y gall y costau hyn olygu mai dim ond unwaith, os o gwbl, y byddai cyrff dyfarnu'n gallu ymgeisio. Awgrymwyd y byddai hyn yn dihybyddu adnoddau y gellid eu defnyddio mewn ffordd wahanol.

Ar gyfer y proffesiwn trydanol, gall opsiynau pwrpasol i Gymru olygu costau ychwanegol i brentisiaid pe na fyddai'r tystysgrifau sy'n cael eu cydnabod gan y grefft ac sydd wedi'u hymgorffori ar hyn o bryd mewn cymwysterau sy'n bodoli eisoes yn cael eu cynnwys yn y fframwaith prentisiaeth newydd gan y byddai angen i brentisiaid ennill y tystysgrifau hynny ar wahân.

O gymharu â'r dewisiadau eraill, barnwyd bod opsiynau A2, B1 ac C1 o bosibl yn fwy costus i'w gweithredu o ystyried gwahanol elfennau a oedd yn mynd i gael eu cyflwyno neu a fydd yn cael eu cyflwyno, megis cynnwys cyflogwyr yn fwy, sicrhau amser ychwanegol i addysgu ac ymgymryd â lleoliad gwaith.

Cadw marchnad agored

Cafodd gwerth marchnad cymwysterau agored ei bwysleisio gan Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu a chyrrff dyfarnu, ond cafodd hyn ei nodi hefyd gan ymatebwyr eraill, gan gynnwys corff yn y sector, wrth ystyried manteision ac anfanteision pob opsiwn.

Cyflwynodd Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu restr o fanteision manwl y gall marchnad agored eu sicrhau o ran ansawdd y cymwysterau a ddarperir. Awgrymodd fod cystadleuaeth yn y farchnad yn arwain at arloesi a gwelliant parhaus, yn cynnal cymwysterau pwrpasol o ansawdd i ddiwallu anghenion lleol ac yn sicrhau eu bod yn fwy cyson â chymwysterau mewn awdurdodaethau eraill. Dadleuodd fod cystadleuaeth hefyd yn osgoi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r un pwynt o fethiant yn achos monopoli: pe byddai'r unig ddarparwr cymwysterau yn methu, mae'n annhebygol y byddai unrhyw gorff dyfarnu arall, mewn gwirionedd, i ymgymryd â'r dasg yn effeithiol. Yn ogystal, gallai'r ffordd y caiff y farchnad ei thrin mewn un sector arwain at dynnu cymwysterau eraill yn ôl nad ydynt yn hyfyw yn economaidd ond a ddigolledir gan y refeniw o gymwysterau eraill na fyddent ar gael mwyach oherwydd y cyfyngiad. Yn olaf, gallai cyfyngiad fesul sector fod yn faich ar ganolfannau gan ei bod yn debygol y byddai'n rhaid iddynt ddelio â sawl corff dyfarnu.

Ar y llaw arall, cydnabu un corff dyfarnu y gall marchnad agored arwain at wahaniaethau yn y safonau a'r dulliau gweithredu sy'n cael eu cymhwysu gan wahanol sefydliadau dyfarnu. Dywedodd un corff yn y sector y gall cystadleuaeth arwain at leihad mewn ansawdd os bydd cyrff dyfarnu'n ceisio ennill mantais gystadleuol drwy gynnig cymwysterau sy'n haws eu hennill neu hyd yn oed gymwysterau nad ydynt yn cynnig unrhyw gyfleoedd go iawn i ddatblygu.

Er bod rhai yn dadlau y gellid ymdrin yn effeithiol â'r dryswch sy'n gysylltiedig â gormod o ddewis a'r materion sy'n ymwneud ag ansawdd y cynnig drwy reoleiddio a monitro (yn hytrach na chyfyngu ar y farchnad), cydnabuwyd yn gyffredinol y byddai creu un fersiwn o'r cymhwyster gydag un corff dyfarnu yn sicrhau eglurder a chysondeb ac yn galluogi cyflogwyr, dysgwyr a rhieni i ddeall gwerth cwblhau'r cymhwyster.

Roedd yr ymatebwyr a oedd o blaid y farchnad agored hefyd o blaid (o leiaf o ran y pwynt hwn) yr opsiynau a fyddai'n cynnal y gystadleuaeth. Yn hyn o beth, ystyriwyd nad oedd yr un o'r ddau opsiwn o dan faes dysgu B yn sicrhau marchnad rydd.

Themâu sy'n dod i'r amlwg o dan faes dysgu A yn unig

Osgoi amhariad a'r angen i ddiwygio

Dadleuodd ymatebwyr a oedd yn cynrychioli rhai darparwyr dysgu, cyrff dyfarnu a chyrrff proffesiynol y gellid newid y ddarpariaeth bresennol (opsiwn A1) er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adolygiad, er yn arafach nag opsiwn A2. Gallai hyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall newidiadau cam wrth gam yn well, gan osgoi'r dryswch y gall llawer o newidiadau ei beri. Dadleuodd rhai fod gormod o newidiadau wedi cael eu gwneud yn barod ac y dylid osgoi gwneud newidiadau diangen sylweddol.

Yn ogystal, o gymharu â meysydd dysgu eraill, roedd yn ymddangos bod maes dysgu A wedi cael mwy o adborth cadarnhaol yn yr adolygiad, felly dadleuodd rhai ei bod yn dderbyniol parhau â'r sefyllfa bresennol. Nid yw llawer o'r materion a'r heriau sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth bresennol ac a nodwyd yn yr adolygiad (megis prinder athrawon ac aseswyr â chymwysterau addas, diffyg offer arbenigol) yn hollol neu'n rhannol gysylltiedig â chymwysterau presennol, a byddent yn rhan o'r system gymwysterau o hyd pa opsiwn bynnag a gaiff ei ddewis. Felly, efallai na fydd opsiwn A2 yn sicrhau'r holl newidiadau a ddymunir.

Ar yr un pryd, cydnabuwyd, os bydd cadw'r ddarpariaeth bresennol yn golygu na ellir mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adolygiad, y gallai fod angen dileu'r cymwysterau presennol a rhoi cymwysterau newydd yn eu lle.

Strwythur a chynnwys y cymwysterau

Dyweddodd rhai ymatebwyr nad yw'r ddarpariaeth bresennol mor glir a chyson (er enghraifft, o ran y meini prawf asesu) ag y dylai fod.

Awgrymodd ymatebwyr y gallai opsiwn A2 roi mwy o gyfleoedd i gynnig cymwysterau sy'n symlach, sy'n gyson â chymwysterau TGAU, sy'n cael eu rheoli'n well, sy'n fwy cyfredol ac sy'n adlewyrchu arfer gorau yn y diwydiant. Dywedodd cyrff cyflogwyr y byddai'r opsiwn hwn, yn wahanol i opsiwn A1, yn galluogi cyflogwyr i ddylanwadu'n fwy ar y broses gynllunio ac y byddai'n i'r cwmnïau bach a chanolig.

Fodd bynnag, lleisiwyd pryder y gall cyfyngu ar nifer y cymwysterau olygu na fydd y galw yn cael ei ateb mewn sefyllfaoedd lle mae cymwysterau ychwanegol bach, pwrpasol bron, o ddefnydd i ddysgwyr neu'n rhan o fanylebau contract Llywodraeth Cymru (Hyfforddiaethau, er enghraifft).

Manteision eraill opsiwn A1 a awgrymwyd gan yr ymatebwyr

- Mae hyblygrwydd o ran dilyniant, er nad yw cymwysterau Lefel 1 yn paratoi dysgwyr yn dda ar gyfer dilyniant.
- Cymwysterau newydd, e.e. mae Tystysgrifau Technegol Lefel 2 bellach ar gael sy'n cyfateb i gymwysterau TGAU.
- Mae'r broses ddynodi yn rhoi'r hyblygrwydd i gyrff dyfarnu adolygu neu ddatblygu cymwysterau newydd yn gyflym mewn ymateb i alw a nodwyd. Gellid colli'r hyblygrwydd

hwn os bydd cymwysterau'n destun proses gymeradwyo lym oherwydd yr amser dan sylw. Ar y llaw arall, gall dibynnu ar broses ddynodi arwain at newidiadau sy'n ymateb i ofynion a bennir mewn rhannau eraill o'r DU.

Anfanteision eraill opsiwn A1 a awgrymwyd gan yr ymatebwyr

- Dadleuodd rhai nad yw cymwysterau cyn-16 presennol o bwys o ran paratoi dysgwyr ar gyfer gwaith ac y gallant greu problemau iddynt, gan gynnwys ailadrodd a'r canfyddiad bod ganddynt gymhwyster lefel 2 eisoes pan fyddant am symud ymlaen i gymhwyster lefel 2 arall. Awgrymodd eraill fod parhau â'r sefyllfa bresennol yn peri'r risg o wastraffu amser dysgwyr ac arian cyhoeddus ac nad yw'r cymwysterau hyn yn ychwanegu at statws na gwerth adeiladu ym meddyliau dysgwyr ifanc na'u rhieni nac yn eu hannog i ymuno â'r diwydiant na datblygu ynddo.

Manteision eraill opsiwn A2 a awgrymwyd gan yr ymatebwyr

- Gallai ehangu gorwelion dysgwyr yn gynnar.
- Gallai gynnwys opsiynau sy'n llwybr-benodol er mwyn ennyn diddordeb dysgwyr sydd eisoes yn gwybod beth yw eu dewis grefft neu broffesiwn.
- Dysgu sy'n fwy ymarferol a fyddai'n adlewyrchu realiti gwaith yn fwy cywir ac yn gwella parodrwydd ar gyfer gwaith.

Anfanteision eraill opsiwn A2 a awgrymwyd gan yr ymatebwyr

- Gall arwain at hunanfodhad yn achos marchnad gyfyngedig a golygu bod cyrff dyfarnu'n rhoi'r gorau i weithredu yng Nghymru.
- Gall fod yn anodd datblygu un cymhwyster sy'n cwmpasu pob agwedd ar Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig.

Themâu sy'n dod i'r amlwg o dan faes dysgu B yn unig

Caniatâd i ddefnyddio lefelau T

Gwnaeth ymatebwyr a oedd yn cynrychioli cyrff dyfarnu godi sawl mater yn ymwneud â chaniatâd i ddefnyddio lefelau T. Deëllir mai'r Sefydliad Prentisiaethau fydd deiliad yr hawlfraint ar ddeunyddiau cymwysterau, ac nid yw'n glir a allai hyn gyfyngu ar allu cyrff dyfarnu i ddefnyddio'r deunyddiau hyn y tu allan i Loegr. Yn ogystal, efallai na fydd y Sefydliad Prentisiaethau yn caniatáu i'r cynnwys gael ei ddefnyddio at unrhyw ddiben heblaw darparu lefelau T. Felly, ni fyddai dysgwyr yn gallu astudio'r elfen Cymhwyster Technegol o raglen lefel T fel cymhwyster annibynnol heb astudio'r rhaglen gyfan, fel y mae opsiwn B1 yn ei awgrymu. Hyd yn oed pe byddai hyn yn bosibl, gallai ymgeiswyr o Gymru gael eu hystyried yn llai cymwys na'u cyd-ymgeiswyr yn Lloegr y byddai gofyn iddynt gwblhau'r profiad gwaith ac elfennau eraill o raglen lefel T.

Ansicrwydd ynghylch lefelau T

Mynegodd ymatebwyr a oedd yn cynrychioli grwpiau rhanddeiliaid gwahanol bryderu bod ansicrwydd ynghylch y ffordd y byddai'r weledigaeth ar gyfer lefelau T yn cael ei gwireddu'n ymarferol (e.e. cyflwyno'r elfen profiad gwaith, nodi lefel y sgiliau a'r wybodaeth y bydd dysgwyr wedi'i chyrraedd yn glir). O'r herwydd, roedd yn ymddangos bod mabwysiadu opsiwn B1 yn ymrwymiad peryglus i 'rywbeth anhysbys'. Hefyd, nid oedd yn glir a allai unrhyw gymwysterau newydd a gaiff eu datblygu ar gyfer lefelau T gael eu defnyddio'n synhwyrol ar wahân i weddill y lefel T.

Strwythur a chynnwys y cymwysterau

Ystyriwyd y byddai'r ddau opsiwn yn arwain at system gymwysterau symlach neu gliriach.

Byddai opsiwn B1 yn debygol o gynyddu hyfforddiant llawn amser drwy'r lleoliadau gwaith, a all fod yn werthfawr ar wahanol lefelau. Fodd bynnag, lleisiwyd pryder ynghylch y gallu i sicrhau lleoliadau gwaith, yn enwedig am nad yw'n glir sut y byddai'r elfen hon o'r rhaglen yn cael ei threfnu ac am fod lleoliadau'n debygol o fod yn anodd a drud iawn i'w darparu yng Nghymru o ystyried y ffaith mai cwmnïau bach a geir gan mwyaf. Gall methu â darparu nifer y lleoliadau sydd eu hangen o'r ansawdd sydd ei angen arwain at fwy o broblemau na manteision. Fodd bynnag, un o anfanteision peidio â chael lleoliad gwaith gorfodol (fel y rhagwelwyd gan opsiwn B2) yw na fyddai dysgwyr o bosibl yn gallu ymdopi â gwaith 'go iawn' ar safle adeiladu ac y gallent fod dan anfantaes o gymharu â'u cyd-dysgwyr yn Lloegr.

Ystyriwyd bod cyflwyno 'craidd cyffredin' ar gyfer adeiladu fel rhan o lefelau T, cael 'blwyddyn bontio' ôl-16 a sicrhau cyfwerthedd â chymwysterau TGAU yn nodweddion da ar y lefelau T. Cymharwyd y flwyddyn bontio â'r cymhwyster sylfaen un flwyddyn a amlinellir yn yr adroddiad ar adolygiad Cymwysterau Cymru (tudalen 80). Fodd bynnag, gall lefelau T greu problemau o ran dilyniant gan mai dim ond ar lefel 3 y maent yn cael eu datblygu (ac ystyriwyd bod sgiliau a chymwysterau ar lefel 2 yn bwysig iawn) ac efallai nad yw'n ddigon clir sut i gyrraedd lefel 3. Ymddengys hefyd nad yw lefelau T yn cynnig llwybr hawdd i gymwysterau prentisiaeth.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y ffaith nad oes sicrwydd y bydd lefelau T yn cael eu mapio i'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

O ran cynnwys a strwythur, cydnabuwyd y byddai opsiwn B2 yn arwain at gymwysterau sy'n mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adolygiad ac yn rhoi'r cyfle i gynllunio cyfres o gymwysterau newydd a chyfredol sy'n adlewyrchu technegau ac arfer adeiladu presennol tra'n ystyried y technegau adeiladu gwahanol a ddefnyddir ledled Cymru. Byddai'n rhoi'r cyfle i integreiddio'r sgiliau 'ysgafnach' o fewn y rhaglenni cymwysterau a'u rhoi mewn cyd-destun a chael gwared ar yr ailadrodd sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Soniwyd am fanteision amrywiol cynnwys cymhwyster generig yn opsiwn B2:

- Mae'n darparu ar gyfer addysgu hanfodion adeiladu i bawb, a fyddai'n arwain at ddealltwriaeth dda o adeiladu. Byddai hyn yn helpu gweithwyr i wneud penderfyniadau gwell wrth gydgyssylltu'r gwaith am eu bod yn deall crefftau eraill yn well. Mae hefyd yn cyd-fynd ag anghenion Cymru lle mae angen gweithwyr sy'n gallu gwneud amrywiaeth eang o waith ar gwmnïau bach yn aml.

- Mae'n ei gwneud yn bosibl i ddysgwyr ddeall anghenion/pwysigrwydd cynnal a chadw yn well, yn hwyluso mynediad ac yn sicrhau gwrthdroadwyedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r sector adeiladu traddodiadol lle y gallai defnyddio deunyddiau a dulliau amhriodol wneud difrod parhaol i'r adeiladau.
- Mae'n sicrhau bod dysgwyr a fyddai'n dechrau gweithio'n hunangyflogedig yn syth ac na fyddai ganddynt brofiad o weithio i wahanol fathau o gyflogwyr wedi'u paratoi'n well.
- Mae'n galluogi dysgwyr i gael syniad gwell o'r grefft yr hoffent arbenigo ynnddi ac felly'n lleihau cyfraddau gadael.

Fodd bynnag, awgrymwyd y gallai fod yn anodd cynllunio blwyddyn gyntaf gyffredinol, y byddai cwmnïau mawr yn llai tebygol o'i chefnogi ac y gallai hefyd greu problemau logistaidd i ddarparwyr yn ystod yr ail flwyddyn pe bai dysgwyr yn newid eu dewis gyrsiau. Yn olaf, awgrymwyd y gallai dysgwyr nad ydynt wedi cwblhau'r cymhwyster dilyniant fod dan anfantais am ei bod yn bosibl y bydd cyflogwyr yn ffafrio'r rhai sydd wedi cwblhau'r cymhwyster dilynol.

Themâu sy'n dod i'r amlwg o dan faes dysgu C yn unig

Strwythur a chynnwys y cymwysterau

Awgrymodd rhai ymatebwyr (gan gynnwys Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu a rhai cyrff dyfarnu) y byddai opsiwn C1 yn arwain at gynnig cymwysterau symlach, ond cyfarwydd hefyd, yn y ddwy wlad. Fodd bynnag, roedd rhai cyrff cynrychiadol o'r farn nad yw opsiwn C1 yn ddigon cydlynol gan fod 'Trailblazers' yn cael eu datblygu fesul tipyn, sy'n golygu bod llawer o ddryswch ac nad oes trosolwg na mewnwelediad strategol i'r holl broses. Gellir amau gwerth yr opsiwn hwn gan fod dyfodol cymwysterau NVQ yn Lloegr bellach yn ansicr. Gall peidio â'i gwneud yn orfodol i gysylltu prentisiaethau Trailblazer â chymwysterau a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol achosi problemau ychwanegol.

Cydnabuwyd y gallai opsiwn C2 oresgyn rhai o'r heriau hyn, gan ei fod yn ymdrin yn uniongyrchol â phryderon ynghylch bylchau mewn darpariaeth a dilyniant mewn lefelau T (e.e. diffyg lefel 2 a chysondeb â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol). Ystyriwyd bod elfennau ychwanegol, megis cymeradwyaeth cyflogwyr, profion gwybodaeth am grefft benodol a llunio asesiadau, yn ddatblygiadau cadarnhaol. Ystyriwyd y byddai opsiwn C2 yn fwy hyblyg ac yn canolbwyntio ar y cyflogwr/dysgwr. Ar y llaw arall, dywedwyd y gallai cynllunio'r cynnig o ran cymwysterau a ddisgrifiwyd yn opsiwn 2 fod yn anodd, yn enwedig mewn sectorau arbenigol lle nad oes gan gyrff dyfarnu na darparwyr yr arbenigedd na'r cyfleusterau arbenigol.

Y defnydd o asesiadau terfynol

O ran opsiwn C1, awgrymwyd y gall profion lle mae llawer yn y fantol, megis defnyddio asesiadau terfynol, wella cadernid yr asesiad. Gellir defnyddio profion gwybodaeth am grefft benodol i ategu'r cymhwyster NVQ a nodi cyflawniad.

Ar y llaw arall, efallai na fydd asesiadau terfynol yn ddull asesu effeithiol, gan fod datblygu a hwyluso asesiadau terfynol, er enghraifft, yn broses hir sy'n arafu'r gwaith o ddatblygu a chynnal prentisiaethau wrth gynnis llai o gyfleoedd i sicrhau dilysrwydd y cynnwys. At hynny, nid yw'n profi cymhwysedd yn y gweithle ac mae'n ddrutach na chymwysterau NVQ. Fodd bynnag, ystyriwyd y byddai defnyddio asesiadau terfynol ynghyd â thrafodaeth broffesiynol a chymeradwyaeth y cyflogwr yn sicrhau cysondeb ac yn cywiro rhai o ddiffygion y system NVQ bresennol. Er hynny, gallai defnyddio asesiadau terfynol mewn achosion lle y byddai cymwysterau NVQ yn dal i fodoli ddyblygu gwaith asesu.

Gweithdrefnau asesu o dan opsiwn C2

Nododd ymatebwyr fod opsiwn C2 yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â materion presennol sy'n ymwneud ag asesu a darparu gweithdrefn asesu effeithiol a hyblyg sy'n hawdd ei defnyddio. Cyfeiriwyd at y broses o asesu asesiadau terfynol yn allanol drwy drafodaeth broffesiynol, y cyfle i fynd i'r afael â materion presennol sy'n ymwneud ag ailadrodd rhwng diplomâu a chymwysterau NVQ, cysondeb â phrentisiaethau Trailblazer y diwydiant a'r hyblygrwydd wrth asesu ar gyfer crefftau arbenigol fel elfennau gwerthfawr o'r opsiwn hwn.

Ystyriwyd bod cyflwyno asesiad sy'n seiliedig ar brosiect yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau ysgafn a hefyd yn cynnwys cyflogwyr yn y broses asesu yn fwy. Byddai'r prosiect yn helpu i sicrhau bod y tasgau asesu yn ymwneud yn fwy ag amgylchedd gwaith go iawn sefydliadau bach. Ar yr un pryd, hyd yn oed os yw'n ymddangos bod y dull asesu wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion swyddi mwy 'arbenigol', roedd rhai yn teimlo nad hwn o reidrwydd fyddai'r dull gweithredu gorau ym mhob maes, yn enwedig gyda phrentisiaethau sy'n denu mwy o ddysgwyr a allai fod yn fwy hunangynhaliol.

Fodd bynnag, gallai'r dull asesu newydd fod yn gymhleth yn ddiangen os caiff ei ddefnyddio i gymhwyso gweithwyr profiadol a gallai effeithio ar lwyth gwaith ymarferwyr. Mynegwyd pryder ynghylch pa mor barod yw busnesau bach a chanolig/isgcontractwyr i asesu cymhwysedd cyn mynediad, ac awgrymwyd y dylid parhau i gynnwys rhai cwmnïau trydydd parti yn y broses.

Wrth i gyflogwyr chwarae rôl fwy gweithredol yn y broses o asesu prentisiaid, ystyriwyd ei bod yn bwysig bod system unioni ar waith os bydd prentis yn teimlo ei fod yn cael ei drin yn anheg gan gyflogwyr.

Y defnydd o gymwysterau NVQ

Nodwyd (gan CSCS, er enghraifft) bod cymwysterau NVQ yn ddull gweithredu a ffefrir ar gyfer y diwydiant adeiladu am fod ganddynt enw da a bod cyflogwyr yn eu deall yn dda ac yn eu derbyn. Fodd bynnag, o ystyried yr adborth negyddol a gafwyd yn ystod yr adolygiad, derbyniwyd y byddai angen diwygio'r cymwysterau NVQ. Cydnabuwyd hefyd ei bod yn bosibl na fydd defnyddio cymwysterau NVQ yn ddull gweithredu da o gwbl, o leiaf mewn rhai meysydd. Rhoddwyd y diwydiant Gwresogi, Awyru ac Oeri fel enghraifft, lle mae cymwysterau NVQ yn diflannu'n raddol neu dan fygythiad oherwydd y nifer fach o ddysgwyr sy'n astudio ar eu cyfer a'r newidiadau i'r polisi Sgiliau Saesneg. I'r un perwyl, awgrymwyd os mai'r unig reswm dros gadw'r cymhwyster NVQ yw sicrhau cysondeb â Lloegr, bod y ffaith

cymwysterau NVQ gael eu tynnu'n ôl o Trailblazers ddileu'r holl fanteision o ran cludadwyedd a golygu bod gan Gymru system asesu nad yw'n diwallu ei hanghenion.

Manteision eraill C1 y soniwyd amdanynt

- Byddai'n mynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad sy'n ymwneud â phrentisiaethau ac yn cynnig ateb i gymhwyso gweithwyr profiadol.

Anfanteision eraill C1 y soniwyd amdanynt

- Er mwyn i gorff dyfarnu gynnal asesiadau terfynol yn Lloegr, rhaid iddo ymuno â'r gofrestr o sefydliadau asesiadau terfynol yn gyntaf. Mae'n broses sy'n defnyddio llawer iawn o adnoddau, ac nid yw llawer o gyrff dyfarnu wedi gwneud hyn, ond yn hytrach maent wedi canolbwyntio ar feysydd darpariaeth eraill. Awgrymwyd y gall fod yn annheg bod cymwysterau cyrff dyfarnu sydd wedi gwneud penderfyniad ar sail eu dadansoddiad o'r farchnad yn Lloegr yn cael eu gwahardd rhag cael eu defnyddio yn fframweithiau prentisiaeth Cymru, sy'n wahanol iawn i'r safonau prentisiaeth newydd yn Lloegr ac sy'n cael eu rheoli gan bolisi ar wahân a datganoledig.

Manteision eraill C2 y soniwyd amdanynt

- Os bydd pob cyflogwr yn asesu cymhwysedd cyn prentisiaeth, gallai symleiddio/cwtogi ar y broses brentisiaeth yn sylweddol.
- Byddai'n fwy deniadol i gorff dyfarnu gan y byddai'n denu dysgwyr o bob galwedigaeth.

Anfanteision eraill C2 y soniwyd amdanynt

- Gall y dewisiadau amrywiol, y gefnogaeth a'r buddsoddiad yn y farchnad leihau, gyda llai o sefydliadau dyfarnu yn barod i ddatblygu cynhyrchion yn benodol i Gymru.
- Gall dysgwyr a chyflogwyr lunio'r farn bod newid y model asesu cymwysterau NVQ presennol yn dibrisio'r cymhwyster.

Ymateb cyrff dyfarnu i gyfyngu ar y farchnad ar gyfer maes dysgu A

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, gwnaethom ofyn i gyrff dyfarnu a fyddent yn debygol o gyflwyno cynnig ar gyfer cymhwyster pe bai cyfyngiad yn ei le a phe bai gwarant mai dim ond cais llwyddiannus a fyddai'n cael mynediad i'r farchnad.

Rhoddodd cyrff dyfarnu eu barn ar gyfyngu yn gyffredinol a'u hymateb posibl i gyfyngu ar y farchnad.

Roedd Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu yn gryf o'r farn y dylai Cymwysterau Cymru gynnal marchnad gymwysterau agored. Pe byddai opsiwn A2 yn cael ei fabwysiadu, roedd Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu yn credu y gallai cyrff dyfarnu weithio gyda meini prawf cymeradwyo ychwanegol a pharhau i weithredu yn y farchnad yng Nghymru lle mae mwy nag un fersiwn o gymhwyster yn cael ei chymeradwyo. Pwysleisiodd Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu, yn yr achos hwn, y byddai marchnad lled-gyfyngedig yn cael ei sefydlu pe bai'r meini prawf cymeradwyo yn diffinio'n fanwl y math o ddull y mae angen ei ddefnyddio wrth ddylunio, datblygu ac asesu cymwysterau. Gallai hyn, yn eu barn hwy, fygwth dilysrwydd

cymwysterau a dileu rhai o'r manteision sy'n gysylltiedig â marchnad agored megis arloesedd a hyblygrwydd. Ail-bwysleisiodd cyrff dyfarnu rai o'r dadleuon dros farchnad agored.

Ar yr un pryd, yn achos crefftau craidd (gosod brics, gwaith saer, plastro a phaentio ac addurno), cydnabuwyd mai dim ond nifer gyfyngedig o gyrff dyfarnu (ond mwy nag un) a fydd yn gallu gweithredu yn sgil newid i ddarpariaeth Cymru'n unig. Yn achos crefftau eraill, dim ond os cyfyngir y farchnad yn y sector i un cyflenwr y gellir sicrhau bod y ddarpariaeth yn ariannol hyfyw. Hyd yn oed yn achos crefftau craidd, mae risg o hyd na fydd cyrff dyfarnu'n barod i ymrwmo i fuddsoddi mewn cymwysterau sy'n benodol i Gymru oherwydd nifer gyfyngedig y cofrestriadau.

Ar wahân i un corff dyfarnu a awgrymodd nad yw'r cymwysterau yn y maes dysgu hwn yn berthnasol i'w weithgarwch, dywedodd pob corff dyfarnu arall y byddai'n ystyried cyflwyno cynnig i ddarparu cymwysterau pe câi opsiwn A2 ei ddewis. Byddai'r penderfyniad hwn yn dibynnu ar ofynion y tendr yn y pen draw, natur yr addasiadau/newidiadau i'w gwneud a ffactorau perthnasol eraill, megis yr elw o'r buddsoddiad. Awgrymodd un corff dyfarnu y byddai'n debygol o gymryd rhan pe bai'r addasiadau sy'n ofynnol gan y meini prawf cymeradwyo yn sicrhau cymaradwyedd ar draws gwledydd y DU.

Dim ond un corff dyfarnu a gyflwynodd ateb ar wahân i opsiwn A2(i) ac A2(ii). Ar wahân i'r pwyntiau a nodwyd uchod, awgrymodd y byddai ei benderfyniad yn y pen draw hefyd yn dibynnu ar faint o newidiadau sydd eu hangen yn achos opsiwn A2(i), oherwydd gall cyflwyno cynnig mewn marchnad gwbl agored fod yn llai ymarferol a chosteffeithiol. Yn achos A2(ii), gallai cyfranogiad y corff dyfarnu fod yn llai deniadol neu gael ei anghymeradwyo/atal hyd yn oed pe byddai'r broses o ddewis un cyflenwr yn seiliedig ar gynigion sy'n bodloni'r meini prawf cymeradwyo, gan y byddai hyn yn gofyn am y costau llawn sy'n gysylltiedig â datblygu a chyflwyno cymhwyster diwygiedig heb unrhyw sicrwydd o adennill costau. Felly, po fwyaf o newidiadau sydd angen eu gwneud i'r model newydd, y lleiaf tebygol ydyw y bydd cyrff dyfarnu yn cymryd rhan. Awgrymwyd yn lle hynny y dylid rhoi contractau ar dendr a'u dyfarnu ar sail cymhwyster, nid drwy gontract unigol sy'n cwmpasu'r sector cyfan ar gyfer y maes darpariaeth hwn.

Diddordeb cyrff dyfarnu mewn cyflwyno cynnig ar gyfer cymwysterau o dan opsiynau B2 a C2

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, gwnaethom ofyn i gyrff dyfarnu a fyddent yn debygol o gyflwyno cynnig ar gyfer cymhwyster o dan opsiynau B2 ac C2.

Ymatebodd un corff dyfarnu na fyddai ganddo ddiddordeb mewn cyflwyno cynnig. Nododd dau gorff dyfarnu y gallai fod ganddynt ddiddordeb mewn cyflwyno cais, ond y byddai hynny'n dibynnu ar y gofynion a chwmpas y cais a'r gallu i wneud arbedion effeithlonrwydd drwy adeiladu ar ddulliau gweithredu a ddefnyddir mewn manau eraill.

Sylwadau ar y seiliau dros osod cyfyngiad

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i gyflwyno sylwadau ar y rhesymau a nodwyd gan Cymwysterau Cymru dros osod cyfyngiad. Ar wahân i'r syniadau a nodwyd uchod, gwnaed y sylwadau canlynol hefyd:

- Mynegwyd pryderon ynghylch dilysrwydd a delwedd, o gymharu â'r ddarpariaeth yn Lloegr os na chaiff yr un corff dyfarnu ei gyflogi.
- Awgrymwyd ei bod yn anodd gweld sut y gallai'r sail dros ddewis y 'fanyleb orau' fod yn gwbl oddrychol a sut y gallai cyflenwyr eraill gael eu rhwystro rhag gweithredu yn y farchnad yn realistig neu'n ddelfrydol pe byddent yn gallu cynnig cymhwyster cyfatebol neu hyd yn oed gynnis gwelliannau i'r cymhwyster a ddewiswyd.
- Os bydd Cymwysterau Cymru am gyfyngu'r farchnad hon i un cyflenwr, y ffordd orau o wneud hyn yw drwy broses dendro deg ac agored.
- Y farn bod gan gyrff dyfarnu y craffter masnachol i benderfynu drostynt eu hunain pa farchnadoedd i weithredu ynddynt, ac nid oes angen cyfyngu ar y farchnad i ddiogelu dilysrwydd.
- Mae'r cynigion ar gyfer diwygio yn seiliedig ar ddiffygion yn yr adroddiad, y cafodd rhai ohonynt eu cyffredinoli i gymwysterau NVQ yn hytrach na chymwysterau penodol.